

## CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

(O Bell Trwy Teams)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023

**Cadeirydd:** Cynghorydd D.Price

**Cynghorwyr:** D.Simpson, S.K.Hunt a/ac D.Hopkins

**Parc Cenedlaethol  
Cynrychiolwyr:** A.Edwards a/ac T.Jones

**Swyddogion sy'n  
Bresennol:** M.Nicholls, W.Walters, W.Bramble, K.Jones,  
C.Griffiths, C.Moore, O.Enoch, C.O'brien,  
C.Plowman, D.Griffiths, S.Jones, M.Holder a/ac  
M.Wade

---

### 1. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

### 3. BLAENRAGLEN WAITH

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

### 4. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Rhoddwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â nhw ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Cynhaliwyd trafodaeth o ran pwysigrwydd y Siarter Archwilio Mewnol, gan ei bod yn cryfhau trefniadau llywodraethu presennol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; roedd y Siarter yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a sefydlwyd yn 2013.

Amlygwyd mai cenhadaeth Archwilio Mewnol oedd gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol yn seiliedig ar risgiau, a gynlluniwyd i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r sefydliadau.

Ar ben hynny, eglurwyd bod y Siarter Archwilio Mewnol yn amlinellu cyfrifoldebau penodol Gwasanaeth Archwilio Mewnol y cyngor enwebedig; a oedd yn cynnwys cyfrifoldebau a hawliau mynediad penodol i bobl a dogfennau pan oedd eu hangen. Soniwyd hefyd fod disgwyliadau o ran sut y bydd Archwilwyr Mewnol yn ymgymryd â'u gwaith o ran gofal proffesiynol, uniondeb, annibyniaeth a didueddrwydd hefyd wedi'u hysgrifennu yn y Siarter; yn ogystal â disgwyliadau a chyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio Mewnol enwebedig, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Penfro.

Nodwyd y bydd y Siarter yn cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Penfro). Yn ogystal, cadarnhawyd bod y Siarter Archwilio Mewnol wedi'i hadrodd i Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; a phe bai angen unrhyw ddiwygiadau, bydd yn cael ei gymryd yn ôl i'r Is-Bwyllgor hwn.

#### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Cyd-bwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol drafft ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

#### **5. CYLCH GORCHWYL DIWEDDAREDIG Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Darparwyd y cylch gorchwyl diweddaredig i Aelodau ar gyfer yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Eglurwyd, yn ystod cyfarfod cyntaf Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor a ellid strwythuro eu cylch gorchwyl yn unol â chanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth diweddar ar Bwyllgorau Archwilio.

Dywedodd Swyddogion fod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn cynnwys manylion ynghylch y diwygiadau strwythurol i gylch gorchwyl yr Is-Bwyllgor.

#### **PENDERFYNWYD:**

Bod Aelodau'n cytuno ar y cylch gorchwyl diwygiedig i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel y nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad a ddsbarthwyd.

6. **CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL YR AWDURDOD GWEINYDDU**

Rhoddodd Swyddogion adroddiad yn manylu ar awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a ddewiswyd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; cadarnhawyd mai Cyngor Sir Caerfyrddin oedd hwn.

Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â Swyddogion ym mis Rhagfyr 2022, a oedd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ynghylch deddfwriaeth y DU mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig; roedd gan bob rhanbarth derfyn amser byr i ddarparu awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) o'u dewis i Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r rheswm dros y cais hwn oedd oherwydd bod Llywodraeth Cymru am ychwanegu hyn i'r ddeddfwriaeth, fel rhan o ddatblygiad Gorchymyn Adran 150.

Wrth benderfynu ar yr awdurdod gweinyddu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, dywedodd y Swyddogion eu bod wedi canolbwyntio ar ddau opsiwn; Cronfa Bensiwn Dyfed a weithredir gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe a weithredir gan Gyngor Abertawe.

O ran buddion pensiwn i ddarpar weithwyr y Cyd-bwyllgor Corfforedig, eglurwyd bod y ddau gynllun pensiwn posib yn union yr un peth; gan fod buddion y cynlluniau yn cael eu pennu gan ddeddfwriaeth y DU.

Nodwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu'r cymorth ariannol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac ef oedd yr awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed; roedd Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn Swyddog Adran 151 ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a Chronfa Bensiwn Dyfed. Yn ogystal, cyflogwyd unig weithiwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar hyn o bryd, drwy Gyngor Sir Caerfyrddin; a dyna pam y daethpwyd i'r casgliad y dylid defnyddio Cronfa Bensiwn Dyfed.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Swyddog Adran 151 wedi ymgynghori â chydweithwyr yng Nghyngor Abertawe, a oedd yn cefnogi defnyddio Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ychwanegwyd bod yr adroddiad a ddsbarthwyd yn rhoi'r wybodaeth

ddiweddaraf i Aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ynghylch y mater hwn.

## **7. Y DIWEDDARAF AM Y PORTHLADD RHYDD A'R GOBLYGIADAU I'R CYNLLUN YNNI RHANBARTHOL**

Cafodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyniad Porthladdoedd Rhydd a sut mae cais llwyddiannus am Borthladd Rhydd yn cyd-fynd â'r weledigaeth a'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol.

Cadarnhawyd ers cyfarfod olaf Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fod cais wedi ei gyflwyno'n ffurfiol i'r ddwy lywodraeth am Borthladd Rhydd a fyddai'n gwasanaethu porthladd Aberdaugleddau a phorthladd Port Talbot.

Diolchwyd i gydweithwyr yng Nghyngor Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin am y llythyrau cefnogi a gyflwynwyd ganddynt i'r ddau a oedd yn gwneud y penderfyniadau yn y broses.

Ers i'r cais gael ei gyflwyno, tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod wedi bod yn canolbwyntio eu hymdrechion ar y cyd ar wneud yn siŵr fod pobl yn ymwybodol o sail y cais, a'u bod yn falch o gyhoeddi bod dros 100 o sefydliadau a oedd bellach yn cefnogi'r cais yn gadarnhaol. Soniwyd y disgwyliwyd y penderfyniad ar y cais tua dechrau mis Mawrth 2023.

Yn y cyfamser, esboniodd Swyddogion eu bod wedi bod yn manteisio ar gyfleoedd yn ymwneud â ffermydd gwynt ar y môr arnofiol a'r agenda adnewyddadwy yn benodol, er mwyn cysylltu â chydweithwyr Undebau Llafur i drafod yr ymrwymadau gwaith teg a oedd wedi'u cynnwys yn y cais am Borthladd Rhydd; bydd cyfarfodydd hefyd yn cael eu cynnal gyda phrifysgolion a cholegau ar draws y rhanbarth yn ystod yr wythnosau nesaf, i ddechrau archwilio'r cyfleoedd sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant, a'r sector arloesi cyfan.

Awgrymodd y Prif Weithredwr fod Aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cymryd rhan mewn gweithdy i ystyried y canlynol mewn perthynas â'r cais am Borthladd Rhydd:

- Trafod a deall pa fuddion y gallai'r cais eu cynnig
- Ymateb i bwyntiau yr oedd cydweithwyr wedi eu codi o ran sut i sicrhau bod y rhanbarth cyfan yn elwa o'r cais hwn

- Nodi sut y mae'r cais yn cysylltu â dyheadau datblygu economaidd ac ynni'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Rhoi sylw i gyfleoedd posib y cais ledled gweddill Cymru a thu hwnt

Roedd yr holl arweinwyr a oedd yn bresennol yn cefnogi cynnal gweithdy am gais am Borthladd Rhydd ar gyfer Aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Awgrymwyd ysgrifennu llythyr ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, i nodi ei gefnogaeth i'r cais; byddai cydweithwyr yn y Tîm Cyfathrebu'n gallu adlewyrchu llais pob arweinydd wrth ddrafftio'r llythyr.

Roedd pob arweinydd a oedd yn bresennol o blaid llunio llythyr i adlewyrchu cefnogaeth Cyd-bwyllgorau Corfforedig De-orllewin Cymru am y cais am Borthladd Rhydd.

## 8. **Y GYLLIDEB AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24**

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn gofyn i Aelodau gytuno a gosod cyllideb Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Eglurwyd mai Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru oedd yn gyfrifol am osod ei gyllideb a chytuno ar yr ardoll i awdurdodau cyfansoddol; roedd yn rhaid gosod a chytuno ar hyn cyn 31 Ionawr 2023.

Yng nghyfarfod olaf Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2022, cyflwynwyd adroddiad drafft i'r Aelodau ar y gyllideb ar gyfer 2023/24; yn ogystal â rhoi arwydd cynnar i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ei hun, roedd hefyd yn caniatáu i Swyddogion roi arwyddion i'r awdurdodau cyfansoddol, at eu dibenion cyllidebu eu hunain, yn enwedig o ran yr ardoll. Yn ystod y cyfarfod, ystyriodd y Pwyllgor dri opsiwn; gan ystyried y pwysau a'r heriau ariannol sylweddol roedd pob awdurdod lleol yn eu hwynebu.

- Yr opsiwn cyntaf oedd cytuno i flaenoriaethu gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru a gosod ardoll yn unol â hynny; gyda chyllideb o tua £1.5 miliwn;
- Opsiwn arall a ystyriwyd oedd atal holl weithgareddau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru; byddai hyn wedi dwyn her gyfreithiol heb gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru;

- Yr opsiwn y cytunodd y Pwyllgor arno oedd gwneud cyn lleied â phosib yn 2023/24 a lleihau maint y gyllideb, gyda gwaith cyfyngedig yn cael ei wneud ym mhob un o'r ffrydiau gwaith; byddai hyn yn caniatáu i gynnydd gael ei wneud ar bob un o'r pedair ffrwd waith, fodd bynnag mewn modd llawer arafach.

Eglurwyd bod yr adroddiad a ddosbarthwyd yn adlewyrchu'r opsiwn a ddewiswyd i wneud y lleiaf posib, ac roedd yn aildrefnu rhai o'r cyllidebau yn unol â hynny. Ychwanegodd Swyddogion fod y gyllideb arfaethedig yn cyd-fynd â'r gyllideb a osodwyd ar gyfer y flwyddyn bresennol; gosodwyd hyn ar oddeutu £575,000, a gosodwyd y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 ar oddeutu £617,000.

Hysbyswyd yr Aelodau fod pedair ffrwd waith clir o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig, a bod swm gwerth £20,000 wedi'i ddyrannu i bob un; roedd yr adroddiad yn nodi bod £140,000 hefyd wedi ei neilltuo ar gyfer cynllunio a rheoli rhaglenni, a fyddai'n cynnwys gwaith ar y Cynllun Corfforaethol, a nodi'r camau a'r mesurau amrywiol y mae angen eu datblygu drwy hynny.

Cyfeiriwyd at y camau allweddol, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ar gyfer yr Is-Bwyllgorau; mae'r gweithredoedd yn nodi'n glir rai o'r syniadau cychwynnol ar y gwaith y bydd angen ei wneud.

Daethpwyd i'r casgliad na fyddai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn derbyn ardoll ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan nad oedd gwerth £20,000 yn cael ei ystyried yn ddigon sylweddol i weithredu ardoll. Yn ogystal, nodwyd bod gofyniad yn y ddeddfwriaeth, o ran Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, mai ar gyfer eu hardal berthnasol yn unig y byddai ardoll yn cael ei chodi, sef cynllunio strategol. Cadarnhaodd Swyddogion y byddai'r trefniant yma'n gyson â chyllideb y llynedd, oherwydd y gweithgarwch cyfyngedig o ran y datblygiad cynllunio strategol.

Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o gamgymeriad swm ar adran 2.4 o'r adroddiad a ddosbarthwyd; Dylai'r ffigur ddarllen £140,000.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y gyllideb wedi'i rhannu'n dair elfen allweddol, rhoddodd y Swyddog Adran 151 drosolwg byr o'r elfennau hyn:

- Cyd-bwyllgor a Phwyllgor y Corff Atebol – costau amcangyfrifedig o oddeutu £263,000
- Is-bwyllgorau – costau amcangyfrifedig o oddeutu £220,000

- Swyddfa Rheoli Rhanbarthol – costau amcangyfrifedig o oddeutu £134,000

Yn dilyn yr uchod, amlygwyd y byddai cyfanswm y gyllideb o £617,000 yn cael ei rannu rhwng y pedwar awdurdod lleol; roedd y dyraniad yn seiliedig ar faint y boblogaeth, sef yr un broses o ddyrannu ers pennu cyllideb y llynedd. Soniwyd y gellid dod o hyd i ardoll yr awdurdod lleol yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

Roedd atodiad B yr adroddiad a ddsbarthwyd yn cynnwys crynodeb o weithgareddau allweddol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, y disgwyliai Swyddogion wneud cynnydd arnynt yn seiliedig ar y gyllideb a gynigiwyd ar gyfer 2023/24; byddai rhagor o fanylion ynghylch y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys amserlenni a chanlyniadau.

Cynhaliwyd trafodaeth o ran y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh), yr oedd arweinwyr wedi nodi yn y gorffennol eu bod am ei flaenoriaethu dros y 12 mis nesaf. Eglurwyd bod swyddogion wedi atgoffa Llywodraeth Cymru cyn cyfnod y Nadolig eu bod eto i gyhoeddi unrhyw ganllawiau ffurfiol ynghylch y CTRh na'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS); yn dilyn hyn, cadarnhawyd bod canllawiau drafft ar y CTRh wedi eu derbyn. Hysbyswyd yr Aelodau fod pryderon yn cael eu codi, ledled Cymru, mewn perthynas â chostau'r CTRh a'r CDS; byddai'n bwysig parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru er mwyn nodi pwy fydd yn rhoi adnoddau ar gyfer y gwaith sylweddol hwn.

O ran y CDS, nodwyd bod y llawlyfr drafft gyda gweithwyr proffesiynol er mwyn iddynt gyflwyno sylwadau ar hyn o bryd; nid oedd y gwaith yma'n debygol o wneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn nesaf oherwydd y pwysau ar adnoddau dynol ac ariannol. Amlygwyd y byddai'r ffocws ar dderbyn y sylwadau ar y llawlyfr drafft, a chael trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Rhoddwyd rhagor o wybodaeth i'r Aelodau am y gwaith oedd ar y gweill yn y rhanbarth o ran datblygiad economaidd. Eglurwyd y bydd Swyddogion yn mapio'r gweithgarwch hwn, ac yn darparu'r manylion mewn cyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn y dyfodol. Ychwanegwyd y bydd rhai elfennau o'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys yr isadeiledd datblygu economaidd ar draws y rhanbarth y gellid ei ddatblygu a'i symud ymlaen dros y flwyddyn nesaf.

Soniwyd, ochr yn ochr â'r gwaith yn ymwneud â chyfleoedd datblygu economaidd, fod Swyddogion Cyngor Sir Penfro yn arwain gwaith ar y Cynllun Ynni Rhanbarthol i nodi sut y gellid paratoi hyn a'i roi ar waith; roedd hyn yn cynnwys cefnogi awdurdodau lleol unigol gyda'u Cynlluniau Ynni Lleol eu hunain.

Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith y bydd angen mireinio'r trefniadau llywodraethu dros y 12 mis nesaf, ond byddai'r gwaith yn ymwneud â hyn yn llawer llai na'r flwyddyn flaenorol; byddai ffocws ar wreiddio llywodraethu a defnyddio'r strwythurau oedd ar waith.

Diolchwyd i bawb a fu'n rhan o ddatblygu'r gwaith, o ran y broses o bennu'r gyllideb.

### **PENDERFYNWYD:**

Y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru yn:

- Ystyried a chymeradwyo gofyniad y gyllideb ar gyfer y Cyd-bwyllgor fel £617,753 - fel y nodir yn Atodiad A o'r adroddiad a ddsbarthwyd;
- Cymeradwyo'r ardoll yn seiliedig ar boblogaeth i'r awdurdodau cyfansoddol fel a ganlyn:

<i><u>Ardoll yr Awdurdod Lleol</u></i>	
Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Ardoll)	215,203
Cyngor Sir Caerfyrddin (Ardoll)	165,898
CBS Castell-nedd Port Talbot (Ardoll)	126,022
Cyngor Sir Penfro (Ardoll)	110,630
	<b>617,753</b>

- Cymeradwyo crynodeb camau allweddol yr Is-Bwyllgor a nodir yn Atodiad B yr adroddiad a ddsbarthwyd; a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr i ymhelaethu ar y rhain fel rhan o'r broses o nodi'r amcanion lles, camau gweithredu/mesurau i'w cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol Drafft

## 9. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## **CADEIRYDD**